# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

**RHAN 2**

STRATEGAETHAU CYMUNEDOL A CHYNLLUNIO CYMUNEDOL

*Cynllunio cymunedol*

**37 Cynllunio cymunedol**

(1) Rhaid i awdurdod lleol—

(a) cychwyn; a

(b) wedi iddo wneud hynny, gynnal, hwyluso a chymryd rhan mewn

cynllunio cymunedol ar gyfer ei ardal.

(2) Mae cynllunio cymunedol ar gyfer ardal awdurdod lleol yn broses y mae'r awdurdod a'i bartneriaid cynllunio cymunedol yn ei defnyddio i wneud y canlynol—

(a) nodi amcanion hirdymor ar gyfer gwella—

(i) llesiant cymdeithasol yr ardal;

(ii) llesiant economaidd yr ardal; a

(iii) llesiant amgylcheddol yr ardal;

(b) nodi amcanion hirdymor mewn perthynas â'r ardal i gyfrannu at sicrhau datblygiad cynaliadwy yn y Deyrnas Unedig; a

(c) nodi'r camau sydd i'w cyflawni a'r swyddogaethau sydd i'w harfer gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid cynllunio cymunedol er mwyn cyrraedd yr amcanion a nodwyd o dan baragraffau (a) a (b).

(3) Rhaid i bob partner cynllunio cymunedol awdurdod lleol—

(a) cymryd rhan yn y broses o gynllunio cymunedol ar gyfer ardal yr awdurdod i'r graddau y mae'r cynllunio hwnnw yn gysylltiedig â swyddogaethau'r partner; a

(b) cynorthwyo'r awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau o dan is-adran (1).

(4) At ddibenion yr adran hon mae cyfeiriad at gam sydd i'w chyflawni neu swyddogaeth sydd i'w harfer gan awdurdod lleol neu un o'i bartneriaid cynllunio cymunedol yn gyfeiriad at gam neu swyddogaeth sydd o fewn pwerau'r awdurdod neu'r partner.

## 38 Ystyr "partneriaid cynllunio cymunedol"

(1) At ddibenion y Rhan hon, y cyrff canlynol yw partneriaid cynllunio cymunedol awdurdod lleol—

(a) cyngor cymuned ar gyfer cymuned y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;

(b) awdurdod tân ac achub Cymreig sydd wedi'i gyfansoddi ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;

(c) Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;

(d) Ymddiriedolaeth GIG sydd wedi'i phennu mewn perthynas ag ardal yr awdurdod drwy gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru;

(e) awdurdod Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran o'i ardal yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;

(f) awdurdod heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;

(g) prif gwnstabl yr Heddlu ar gyfer ardal heddlu sydd wedi ei grybwyll ym mharagraff (f);

(2) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (3) a (4), caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn—

(a) diwygio neu hepgor unrhyw baragraff yn is-adran (1);

(b) ychwanegu paragraffau ychwanegol at yr is-adran honno;

(c) diwygio neu hepgor paragraffau ychwanegol o'r fath.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio ag arfer eu pŵer o dan is-adran (2)—

(a) yn y fath fodd ag i gynnwys, neu ddarparu ar gyfer cynnwys, person yn is-adran (1) nad oes ganddo swyddogaethau cyhoeddus eu natur;

(b) yn y fath fodd ag i gynnwys, neu ddarparu ar gyfer cynnwys, person yn yr is-adran honno onid ydynt wedi ymgynghori â'r canlynol—

(i) pan fônt yn bwriadu cynnwys person, y person hwnnw;

(ii) unrhyw gynrychiolwyr awdurdodau lleol yng Nghymru y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol;

(iii) unrhyw gynrychiolwyr partneriaid cynllunio cymunedol y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.

(4) Os bydd Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer o dan is-adran (2) yn y fath fodd ag i gynnwys, neu ddarparu ar gyfer cynnwys, person yn is-adran (1) y mae ganddo swyddogaethau cyhoeddus a phreifat eu natur, dim ond mewn perthynas â'r swyddogaethau cyhoeddus eu natur y cânt gynnwys y person hwnnw, neu ddarparu ei fod yn cael ei gynnwys.